ELLIS, ELLIS ab (fl. 1685-1726), clerigwr a bardd

Enw: Ellis Ab Ellis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a bardd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Gildas Tibbott

Cyfeiliornodd amryw o'r geiriaduron bywgraffyddol wrth ei amseru ganrif yn gynharach. Ni wyddys dim am ei deulu na'i gysylltiadau cynnar, er y ceir fel pennawd i gyfres o englynion o'i waith yn NLW MS 255A 'Englynion o wneuthuriad Ellis ab Ellis a anwyd ymhlwyf Trillo yn sir Feirionydd.' Daliodd guradiaeth barhaol eglwys Rhos, Sir Gaernarfon, am yn agos i 32 mlynedd; ceir ei gofnod cyntaf yng nghofrestr y plwyf ar 14 Mai 1693, a'r olaf ar 28 Mawrth 1725. Yr oedd Llandudno hefyd o dan ei ofal. Bu farw ym mhlwyf Meliden, Sir y Fflint. Profwyd ei ewyllys 22 Medi 1726.

Ysgrifennodd farddoniaeth mewn mesurau caeth a rhydd. Cyhoeddwyd ' Cywydd i'r Arian ' yn *Dyfyrwch ir Cymru neu Ddewisol Ganiadau* (Dulyn, d.d.) ac yn *Y Gwladgarwr*, iv, 18; ' Hanes y Byd ' yn *Almanac* Thomas Jones, 1685; a ' Carol Plygain,' 1710, ' Hanes Llundain,' a ' Gofal Cybydd am ei Ferch ' yn *Blodeu-Gerdd Cymry*, 1759. Ceir rhai o'r darnau hyn, ac eraill o'i waith, yn y llawysgrifau canlynol: NLW MS 9B , NLW MS 255A , NLW MS 432B , NLW MS 434B , NLW MS 436B , NLW MS 653B , NLW MS 2621C , NLW MS 3487E , NLW MS 10744B , NLW MSS 13063B ; Cwrtmawr MS 5B ; Cardiff 47, 64; Swansea 3 (155); B.M. Add. 14875, 14987, 14992 (a'u cyhoeddi yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*, 1931), 15005, 15010. Cyfieithodd lyfryn o ryddiaith, *Britain's Timely Warning*, i'r Gymraeg o dan y teitl *Cofiadur Prydlon Lloegr* (Amwythig, Stafford Prys, 1761).

Awdur

Gildas Tibbott, (1900 - 1979)

Ffynonellau

Cofysgrifau'r Eglwys yng Nghymru

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), 542

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852), 141

Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol (1875), i, 507

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (AberdÃ¢r 1867-70), i, 252

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870), 298

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803), 14

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732997

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Tibbott, G., (1953). ELLIS, ELLIS ab (fl. 1685-1726), clerigwr a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 3 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ELLI-ELL-1685

Copïo ir Clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government